CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**
*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

## SWYDDOGION

*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro,*
*Bow Street, Dyfed.*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*John Dilwyn Williams,*
*Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,*
*Pwllheli, Gwynedd.*
*(Pwllheli 613480)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams,*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.*
*(Caernarfon 3593)*

**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## RHODDION

**£19.00:** M. L. Jones, Caerdydd.

**£10.00:** Mrs N. Owen, Mayfield; Parch W. H. Price, Llanelli.

**£7.00:** Mrs D. Thomas, Llanwnda; J. O. Jones, Caernarfon; J. T. Jenkins, Llangeler.

**£5.00:** R. G. Jones, Pentyrch; R. T. Jones, Llanarmon-yn-Iâl; G. E. Evans, Southampton; er cof am Rhiannon Francis Roberts; D. O. Jones, Talysarn.

**£4.00:** W. E. Roberts, Caernarfon; R. Davies, Ponciau; R. E. Hughes, Pentyrch; G. Lloyd, Pwllheli; G. M. Jones, Tongwynlais; J. R. Thomas, Rhosllannerchrugog; Parch W. Jones, Llanystumdwy; Mrs L. J. Dunn, Nottingham; T. H. Godfrey, Croft on Tees.

**£3.00:** Mrs M. Thomas, Porthaethwy; N. M. Pearson, Caerdydd.

**£2.00:** C. Jones, Wrecsam; Mrs H. A. Morris, Llangian; Miss C. M. Jones, Caergybi; Parch A. M. Roberts, Pwllheli; H. E. Jones, Rhoshirwaun; D. Milles, Hwlffordd; K. Evans, Rhydaman; Mrs B. Owen, Llanfairpwll; I. G. Efans, Deiniolen; Miss O. Jones, Comins Coch; G. Owen, Llanrug; E. E. Wigley, Bont-newydd; Mrs T. B. Jones, Caernarfon; A. Rowlands, Llangefni; M. Owen, Llundain; Mrs S. Parry Jones, Betws y Coed; M. H. Greenacombe, South Croydon; R. Jones, Llanfairfechan; G. Pritchard, Minffordd; E. Evans, Cheltenham; E. P. Roberts, Manod; G. Williams, Llanfairtalhaiarn; W. J. Jones, Caerdydd; D. H. Rees, Felinfoel; G. T. Jones, Pentreuchaf; Mrs G. Rees, Porthaethwy.

**£1.50:** W. M. Davies, Abergele.

**£1.00:** Mrs B. Roberts, Llanwnda; G. I. Williams, Llanrug; Mrs E. M. Richards, Abergele.

# CYFROL I'W THRYSORI

FLWYDDYN yn ôl bu farw Mr Aneurin Lewis, a fu hyd ei ymddeoliad yn Uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Roedd Mr Lewis yn ysgolhaig manwl a chraff, ac yn un o'n hawdurdodau pennaf ar lên a dysg Gymraeg yn y ddeunawfed ganrif.

Bu'n un o sylfaenwyr Cylch Llyfryddol Caerdydd, ac yn Drysorydd y Cylch o'r dechrau hyd ei farw. Er cof amdano, mae'r Cylch Llyfryddol yn bwriadu cyhoeddi cyfrol o'i ysgrifeniadau erbyn haf 1991.

Ar ddechrau'r gyfrol, bydd ysgrifau coffa gan nifer o gyfeillion a chydweithwyr Mr Lewis. Wedyn, yn eu dilyn, bydd detholion o amrywiol gyhoeddiadau Mr Lewis ei hun, a'r rheini'n ddetholion o natur hunangofiannol yn bennaf. Yna, corff y gyfrol fydd rhai o brif erthyglau cyhoeddedig Mr Lewis ar ddysg a llên y ddeunawfed ganrif, ynghyd â dwy ddarlith bwysig anghyhoeddedig, sef ei ddarlith i Gymdeithas Bob Owen ar 'Griffith John Williams a'i Lyfrgell' a'i Ddarlith Goffa G. J. Williams ar 'Ieuan Fardd a'i Gymdeithion'.

Cyfrol gain fydd hon, wedi'i hargraffu ar bapur o ansawdd uchel a'i rhwymo'n gadarn mewn rhwymiad lliain da. Amcangyfrifir y bydd y gyfrol yn ymestyn i tua 160 o dudalennau maint 9¼" × 7¼", ac y bydd yn costio tua £16 ynghyd â chludiad.

**Cyfrol i danysgrifwyr yn unig fydd hon. Ni fydd ar werth yn y siopau. Os am ei chael, felly, bydd yn rhaid ei harchebu cyn y dyddiad cyhoeddi.**

Mae'n sicr y bydd llawer o gyfeillion a chyn-ddisgyblion Mr Lewis, ynghyd â llawer eraill o garedigion 'y pethe', am danysgrifio i'r gyfrol gyfoethog hon. Dylai'r sawl sydd am wneud anfon amlen (wedi'i stampio a chyda'u cyfeiriad arni) at Ysgrifennydd y Cylch Llyfryddol — **Mr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ** — fel y gellir anfon ffurflen danysgrifio atynt pan fydd y manylion terfynol wedi'u cwblhau.

E. Wyn James
*Ysgrifennydd Cylch Llyfryddol Caerdydd*

## YN EISIAU

*Thomas Roberts (Llwynrhudol):* ***The Welsh Interpreter.*** *Llundain, Samuel Leigh, 1831. Anne Beale, Rose Merfyn:* ***A Tale of the Rebecca Riots.*** *Llundain, Hodder & Stoughton, 1916 (neu unrhyw argraffiad arall).* Howard Godfrey, 7 South Parade, Croft on Tees, Darlington. Ffôn: (0325) 720795.

*W. J. Thomas:* ***Y Cryman Medi: Atgofion Gŵr o Eifionydd.*** *Caernarfon, Llyfrfa'r M.C., 1975.* W. J. Williams, 39 Pen-y-ffridd, Penrhos, Bangor, Gwynedd LL57 2LZ. Ffôn: (0248) 364173.

*Francis Green:* ***Calendar of Crosswood Deeds.*** *Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1927.* C. J. Bonner, Pantyrafon, Brynafon, Llanafan, Aberystwyth, Dyfed SY23 4BG. Ffôn: Pontrhydygroes 358.

*David Thomas:* ***Ann Griffiths a'i Theulu.*** *Dinbych, Gwasg Gee, 1963. Evan Richards:* ***A Short Memoir of Ann Griffiths with a translation of her letters and hymns.*** *Y Barri, 1916.* Nia Rhosier (ar ran teulu Dolwar Fach), 2 Oak Mews, Heol-y-dderwen, Llangollen, Clwyd LL20 8RP. Ffôn: (0978) 860835.

**Hen brintiau,** *lluniau neu lestri yn dangos y wisg Gymreig.* ***Llyfrau Cyfres yr Adar.*** *Gwasg Dwyfor (nid cyfrolau 2 a 4).* J. Ll. Williams, Pen-y-bont, Llanfihangel, Caergybi, Gwynedd LL65 4DW. Ffôn: Y Fali (0407) 740760.

*J. E. Roberts a Robert Owen:* ***The Story of Montgomeryshire: a school history and geography of Montgomeryshire.*** *Caerdydd, 1916.* Richard H. Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed SY24 5BG. Ffôn: (0970) 828102.

## YN EISIAU

***Cof Cenedl ii,*** Geraint H. Jenkins (Gol.), Gwasg Gomer.

***Yr Amddiffynwyr, Cyf. ii, 1066-1485,*** Cyfres Cymru mewn Hanes; David Fraser; Gwasg Prifysgol Cymru.

***Owen Glendower,*** J. E. Lloyd, Gwasg Rhydychen 1931.

***Cyffro Cymdeithasol yng Nghymru, 1800-c.1843,*** Cyfres Llygad y Ffynnon, Cyf. 1; H. Thomas, Gwasg Prifysgol Cymru.

***Addysg yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg,*** Cyfres Llygad y Ffynnon, Cyf. ii; Ieuan D. Thomas, Gwasg Prifysgol Cymru.

***The Norman Conquerors,*** Cyfres 'A New History of Wales'; D. Walker, Gwasg Christopher Davies.

***Blodau'r Ffair,*** rhifau 38 a 42.

**Huw Williams, 158 Ffordd Penrhos, Bangor (Bangor 362752).**

***The Pedigrees of Anglesey and Caernarvonshire Families,*** gan J. E. Griffiths.

**Edgar W. Parry, Awelfryn, 16 Stryd Thomas, Caernarfon LL55 1PB. Ffôn: Caernarfon 3802.**

Argraffiad cyntaf ***Traed Mewn Cyffion,*** Dr Kate Roberts, Gwasg Aberystwyth, 1936.

**Hugh Edwin, Ffilmiau Eryri, Hen Ysgol Aberpwll, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS. Ffôn: (0248) 671167.**

## YMYL Y DDALEN

CAED argraffiadau o'r gyfrol fechan *Hanes y Byd a'r Amseroedd* yn 1718 (yn Amwythig), yn 1721 (Llundain), yn 1724 (Amwythig), yn 1780 (Amwythig) ac yn 1799 (Dolgellau).

Am ryw reswm neu'i gilydd newidiwyd teitl y gyfrol yn argraffiad 1724 i *Llyfr Gwybodaeth y Cymro,* a'i alw'n ail-argraffiad pryd mewn gwirionedd yr oedd yn drydydd argraffiad. Adferwyd yr enw *Hanes y Byd . . .* yn yr argraffiadau dilynol.

Awdur y llyfr poblogaidd hwn oedd S.T., sef Simon Thomas, gweinidog Presbyteraidd, a aned, meddir, yn y Cilgwyn ger Llanbedr-pont-Steffan. Yn nhraean cyntaf y gwaith cyflwyna'r awdur y darganfyddiadau diweddaraf am greadigaeth Duw, y sêr a'r planedau. Hefyd rhestra'r cyfandiroedd a'r gwledydd, eu hyd a'u lled, eu crefydd a'u cynnyrch. Paganiaid rhonc oedd trigianwyr mwyafrif y gwledydd.

Yng ngweddill y llyfr bwrir iddi i olrhain hanes crefydd gan ddechrau gydag Adda. A'r awdur yn Bresbyteriad, nid rhyfedd iddo ddadlau'n fanwl ac yn faith mai'r un oedd henuriad ac esgob yn y Testament Newydd, sef un a ofalai am un Eglwys neu un gynulleidfa.

Dro ar ôl tro condemnir Pabyddiaeth a therfyna'r llyfr gyda'r datganiad fod yr anghrist hwnnw fwy neu lai wedi machlud.

Nodweddir argraffiad 1724 gan gannoedd ar gannoedd o wallau argraffu ond ceir iawn am hynny wrth ddarllen y llyfr gan ddefnydd helaeth yr awdur o eiriau tafodieithol y De.

Y mae gennyf gopïau cyflawn o argraffiadau 1718, 1724 a 1780. A barnu wrth liw rhai o dudalennau fy nghopi o argraffiad 1718, bu unwaith yn beryglus o agos at fflamau tân! Cyn-berchennog oedd 'William Williams, Tŷ Ucharyw, Trefriw'.

Mae'r copi o argraffiad 1724 fel newydd ac wedi ei rwymo'n gain odiaeth mewn lledr. Cywasgwyd y llythrennau A.B. i'r lledr oddi mewn i glawr cefn y gyfrol. Clawr papur sydd am argraffiad 1780, argraffiad a fu, yn 1803, yn eiddo John Lloyd. — D.W.W.

## AR WERTH

**Cymru,** *h.y.* *Y Cymru Coch, set gyflawn mewn cyflwr graenus.* G. Roberts, Menai, 27 Cambourne Avenue, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AQ. Ffôn: (0222) 613714.

**i a ii *J. H. Davies Morris Letters,*** *y ddwy gyfrol. Heb eu rhwymo'n unffurf (y ddwy gyfrol mewn cyflwr fel newydd).* Maldwyn Jones, 4 Sarn, Llanfairpwll, Ynys Môn.